Golygydd *Gwerddon*: manylion y rôl

1. Cefndir *Gwerddon*

1.1 E-gyfnodolyn ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw *Gwerddon*. Mae'n gyfnodolyn academaidd amlddisgyblaethol safonol. Cymraeg yw iaith y cyfnodolyn.

1.2 Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o *Gwerddon* ym mis Ebrill 2007. Fel rhan o'r ymdrech i hyrwyddo statws yr iaith o fewn addysg uwch, ystyriwyd ei bod yn hanfodol bwysig hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng ymchwil, ac felly sefydlwyd cyfnodolyn academaidd a fyddai'n fforwm ar gyfer cyhoeddi gwaith ysgolheigaidd cyfrwng Cymraeg ar draws y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau.

1.3 Mae *Gwerddon* yn gweithredu cyfundrefn arfarnu annibynnol ac yn arddel y safonau golygyddol uchaf. Mae'n gydnaws â gofynion y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF).

1.4 Mae gan *Gwerddon* Olygydd ac Is-olygydd. Fe'u cefnogir yn eu gwaith golygyddol gan Fwrdd Golygyddol sy'n cynnwys ysgolheigion o amryw ddisgyblaethau ledled Cymru, ynghyd â thîm o Is-olygyddion Dan Hyfforddiant.

1.5 Cefnogir y Golygydd a'r Is-olygydd ymhellach gan Gynorthwywyr Golygyddol o staff y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

2. Swydd Ddisgrifiad

2.1 Y Golygydd sy'n bennaf gyfrifol am wneud penderfyniadau golygyddol yn seiliedig ar bolisïau'r Bwrdd Golygyddol, ac am arwain y tîm golygyddol (sy'n cynnwys yr Is-olygydd a'r Cynorthwywyr Golygyddol).

2.2 Mae dyletswyddau penodol yn cynnwys:

- Goruchwylio'r broses o gywain erthyglau i'r cyfnodolyn;
- Llywio cynnwys rhifynnau arferol ac arbennig drwy dderbyn erthyglau a rhoi cychwyn ar y broses arfarnu;
- Golygu pob erthygl a dderbynnir wedi iddynt gael eu harfarnu gan sicrhau i awduron yr erthyglau ddilyn y confensiynau golygyddol;
- Cyfathrebu gyda'r awduron wedi derbyn yr arfarniadau;
- Tasgau golygyddol cyffredinol eraill yn ôl yr angen.

2.3 Disgwylir i'r Golygydd fynychu cyfarfodydd Bwrdd Prosiect *Gwerddon* (sy'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn ar Teams) a chyfarfodydd Bwrdd Golygyddol (sy'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn ar Teams).

2.4 Tymor y swydd yw pum mlynedd. Gall y Bwrdd Golygyddol gynnig estyniad(au) o dair blynedd i ddeiliaid y swydd.

2.5 Amcangyfrifir y bydd y gwaith, ar gyfartaledd, yn hanner diwrnod yr wythnos ond bydd hyn yn amrywio. Bydd angen bod ar gael i ymateb yn gyson i ymholiadau e-bost gan y Tîm Golygyddol. Gall y baich fod yn drymach wrth i ddyddiad cyhoeddi rhifyn agosáu.

2.6 Rôl ddi-dâl yw hon, ond telir treuliau rhesymol (e.e. costau teithio).

3. Sut i ymgeisio

3.1 Gellir gwneud cais drwy anfon llythyr a CV yn electronig at gwybodaeth@gwerddon.cymru.

3.2 Dylai'r llythyr fod hyd at ddwy dudalen A4 o hyd ac yn amlinellu:

- eich profiad golygyddol ac arfarnu;
- eich profiad ymchwil a chyhoeddi;
- eich gweledigaeth ar gyfer datblygu'r cyfnodolyn;
- unrhyw brofiad perthnasol arall a allai gefnogi eich cais.

3.3 Y dyddiad cau yw 17:00, 9 Rhagfyr 2026.

3.4 Cynhelir cyfweliadau ar-lein ym mis Ionawr 2027.

3.5 Disgwylir bod y Golygydd yn cychwyn ar y gwaith ar 1 Ebrill 2027.

3.6 Am sgwrs bellach ynglŷn â'r rôl, dylid cysylltu â gwybodaeth@gwerddon.cymru.